**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Amgylched a Chyllid a gynhaliwyd Nos Lun, Rhagfyr 14eg 2015 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Colin Hughes (cadeirydd), Roy Tickle (is gadeirydd), Raymond Bartley, Brian Davies, Gaynor Wood, Catherine Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Dim

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod olaf o'r pwyllgor am y flwyddyn 2015.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Roy Tickle - eitem agenda 6(2)(2) - cymorthdaliadau - Marchnad y Bobl, Dinbych - personol.
(2) Cyng Gaynor Wood - eitem agenda 6(2)(2) - cymorthdaliadau - Marchnad y Bobl, Dinbych - personol.

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Dachwedd 16eg 2015.**

3. **Materion yn codi:** Cofnod rhif 8 - mewn ateb cadarnhaodd clerc y dref ei fod wedi ysgrifennu at yr ysgol yn mynegi penderfyniad y cyngor ond heb dderbyn ymateb.

**A.** **<u>Amgylchedd.</u>** E bost oddi wrth Lyndsey Tasker a llythyr oddi wrth Ann Jones AS. Dywedodd y Cyng Bartley fod pobl o dan yr argraff fod y cyngor tref yn gyfrifol am ddwy gylchfan Dinbych. Rhoddwyd ar ddeall I Mrs Tasker sut roedd y drefn yn gweithio. Roedd ysgolion lleol yn awyddus i fod yn ymglymedig. Dywedodd y Cyng Tickle ei bod hi'n bwysig fod y safleoedd, unwaith wedi eu sefydlu, yn cael eu cynnal a chadw. Cytunwyd y byddai'r cyngor tref yn gefnogol mewn unrhyw fodd y gallai ac i awgrymu i Mrs Tasker i grŵp gael ei sefydlu ac i'r cyngor tref gael cynrychiolaeth ar y grŵp. Cytunwyd hefyd i hysbysu Ann Jones AC o hyn. Cytunwyd ymhellach i'r Cyng Raymond Bartley, Gaynor Wood a Catherine Jones gynrychioli'r cyngor tref.
Roedd y llythyr oddi wrth Ann Jones hefyd yn cyfeirio at dalu am barcio - cytunwyd i'r rhan yma o'r llythyr gael ei gyfeirio at y cyngor llawn i'w drafod.

**B.** **<u>Cyllid</u>**

1. **Cyfrifon:** Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Welsh Water - Dŵr Cymru - Gardd Dr E P (Rhif siec 005771) | - | £639.57 |
| (2) | SLCC - aelodaeth clerc y dref 2016 (Rhif siec 005772) | - | £187.00 |
| (3) | Sandra Williams - gwasanaeth cyfieithu 16.11.15 (Rhif siec 005773) | - | £90.00 |
| (4) | Canda Copying - costau llungopïwr (Rhif siec 005774) | - | £217.61 |
| (5) | Catalyst Systems - storfa data diogel oddi ar y safle (Tachwedd) (Rhif siec 005775) | - | £18.56 |

Cyfanswm taliadau: £1,152.74

2. **Nodwyd talu £103.48 i Sworders Fine Art Auctioneers** (cofnod 127(1)(7) yn cyfeirio)

3. Derbyniwyd a nodwyd **Adroddiad Ariannol cyfnod 1.4.15 - 30.11.15.**

**4.** **CSDd - Sail / Archebiant Treth y Cyngor 2016/2017**. Cyfeiriodd clerc y dref at y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth CSDd. Roedd cynnydd yn y ffigwr sail o 11 i'w gymharu â ffigwr sail 2015/2016.

**5.** **Gwasanaeth Sul y Cofio.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr ymateb e-bost a dderbyniwyd oddi wrth CSDd a hefyd ymateb Sue Williams o'r Lleng Prydeinig. Nodwyd y ddau. Cytunwyd i gadarnhau'r penderfyniad a wnaed gan y pwyllgor yma ar Dachwedd 16eg (Cofnod 9) ac i ad-dalu'r ffi o £120 a dalwyd gan y Lleng Prydeinig (Rhif siec 005777).

**6.** **Cymorthdaliadau**: 1. Nodwyd y llythyrau a'r e-byst yn diolch a dderbyniwyd oddi wrth (1) Cymdeithas Gymraeg Dinbych a (2) Marie Curie.

2. Ystyriwyd yn fanwl y ceisiadau canlynol am gymorthdaliadau a gwnaed penderfyniadau ar bob un fel a ganlyn:

(1) Capel Mawr, Dinbych. Gohiriwyd y cais tan yr amser y derbynnir yr wybodaeth berthnasol ynglŷn â cheisiadau eraill am grant.
(2) Marchnad y Bobl Dinbych. Tra roedd y cyfarfod yn gefnogol i'r farchnad ac yn barod i gynorthwyo lle y gallai, cytunwyd i ohirio penderfyniad er mwyn cael mwy o wybodaeth. Penderfynwyd y byddai o fudd i rai o aelodau'r pwyllgor yma gyfarfod a chynrychiolwyr marchnad y bobl i drafod eu gofynion. Cytunwyd ymhellach i'r Cyng Colin Hughes, Raymond Bartley a Gaynor Wood gynrychioli'r cyngor tref gyda'r Cyng Brian Davies fel eilydd.
(3) Plas Pigot Country Club - £1.000 (A.137)(Rhif siec 005776)
(4) Cynnig - gohiriwyd i dderbyn ffurflen gais cymorthdaliadau.

**7.** **Defnydd o wefan y cyngor tref i gyhoeddi datganiadau CSDd i'r wasg.** Datganodd y Cyng Colin Hughes ddiddordeb personol. Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth GSDd. Cytunwyd i ofyn am wybodaeth ynglŷn â nifer o ddatganiadau i'r wasg a fyddai'n debygol ac yna i glerc y dref i'w drafod gyda Tom Williams, oedd yn edrych ar ôl y wefan, ynglŷn â'r gwaith ac unrhyw gostau fyddai'n ymglymedig ac yna i adrodd yn ôl i'r cyngor tref.

**8.** **Argymhellion i'w trafod gan gyfarfod o'r cyngor llawn ym mis Ionawr 2016 i osod y gyllideb ar gyfer 2016/2017.** Dywedodd clerc y dref na fu CSDd ar ofyn y cynghorau tref a chymuned ynglŷn â gwasanaethau datganoledig yn y flwyddyn ariannol nesaf. Cytunwyd i argymell edrych ar bob pennawd yn y gyllideb a lle'r oedd yn bosibl i ystyried torri i lawr i is-benawdau.

**9.** Trafodwyd y **llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Catalyst Systems ynglŷn â debyd uniongyrchol.** Gan mai polisi'r cyngor oedd i bob eitem o wariant dderbyn cymeradwyaeth y cyngor nad oedd yn briodol i gydosod debyd uniongyrchol.

**10.** Trafodwyd yr **e-bost oddi wrth Ioan Talfryn** yn gofyn am lythyr o gefnogaeth i gais am gynllun tair blynedd yn Sir Ddinbych mewn cysylltiad â Choleg Cambria i barhau i ddarparu Cyrsiau Cymraeg i Oedolion. Cytunwyd i yrru llythyr yn cefnogi.

**11.** **Archif Gymunedol Dinbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Clwyd Wynne ynglŷn â bwriad yr Archif Gymunedol i gyhoeddi cylchgrawn chwarterol. Cytunwyd i gefnogi'r syniad mewn egwyddor.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.44 o'r gloch.

Arwyddwyd:...................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:...........................................